Gweiddi

# Tasg 3

**(Craidd, sbardun 1)**

1. Edrychwch ar y **Ffeil ffeithiau** eto. Gwnewch ffeil ffeithiau debyg:
   - amdanoch chi eich hun, *neu*
   - am eich ffrind, *neu*
   - am rywun enwog rydych chi'n gwybod llawer amdano

   Does dim rhaid ichi gadw at yr un **penawdau** (y geiriau mewn print trwm).

2. Ydych chi wedi gweld Huw Ffash ar y teledu? Ewch i wefan clic S4C (www.s4c.co.uk/clic) a chwilio am 'Prynhawn Da'. Mae eitem Huw Ffash ar y rhaglen ar ddydd Mercher, fel arfer, ac mae'r amserlen ar ddechrau'r rhaglen yn dweud pryd mae'r eitem.
   Cyn edrych ar yr eitem, edrychwch ar y cwestiynau hyn i baratoi at drafodaeth ar ôl ichi ei gwylio:
   - Oeddech chi'n hoffi'r dillad? Pam? Pam lai?
   - Pa gyngor roddodd Huw i'r gwylwyr?
   - Dewiswch **dri gair** a ddefnyddiodd Huw i ddisgrifio'r dillad. Gwnewch gasgliad dosbarth o'r geiriau.

3. Chwiliwch am wisg o gylchgrawn neu ar y we. Ysgrifennwch rai brawddegau am y wisg, gan ddefnyddio rhai o'r geiriau a ddefnyddiodd Huw Ffash.